OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1265 (Cy. 85)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Ebrill 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *27 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 78(1) a 142(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 142(3)(b)(ii) o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 27 Ebrill 2015.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr" ("*list of specified categories of applicants*") yw'r categori neu'r categorïau o geiswyr(**2**) y mae awdurdod tai lleol wedi penderfynu rhoi sylw i ba un a yw ceiswyr wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio mewn cysylltiad â hwy(**3**);

ystyr "rhoi sylw i fwriadoldeb" ("*have regard to intentionality*") yw rhoi sylw i ba un a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

(**1**) 2014 dccc 7.
(**2**) Fel y'u diffinnir gan adran 62(3).
(**3**) Gweler adran 78(2).

# RHAN 1

## Categorïau Penodedig

### Categorïau o geiswyr at ddiben adran 78

**2.** Mae'r canlynol yn gategorïau o geiswyr at ddiben adran 78 (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb)—

(a) menyw feichiog neu berson y mae'n preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswylio gydag ef;

(b) person y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(c) person—

(i) sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol), neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(d) person—

(i) sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(e) person—

(i) sy'n ddigartref o ganlyniad i wynebu camdriniaeth ddomestig, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio'r sawl sy'n cam-drin) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(f) person—

(i) sy'n 16 neu'n 17 oed pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(g) person—

(i) sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, sy'n wynebu perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio camfanteisiwr neu gamfanteisiwr posibl) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(h) person—

(i) sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(i) person—

(i) sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny, neu

(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;

(j) person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy'n hyglwyf o ganlyniad i un o'r rhesymau canlynol—

(i) bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(**4**),

(ii) bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu

(iii) bod wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012(**5**),

neu berson y mae person o'r fath yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef.

# RHAN 2

## Gweithdrefn ar gyfer rhoi sylw i fwriadoldeb

### Hysbysiad o benderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb i Weinidogion Cymru

**3.**—(1) Rhaid i awdurdod tai lleol sy'n penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'i benderfyniad.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig bennu—

(a) y rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr, a

(b) y rheswm neu'r rhesymau dros roi sylw i'r categori neu gategorïau sydd wedi eu cynnwys yn y rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr.

(3) Rhaid darparu hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru dim llai na 14 o ddiwrnodau cyn gweithredu'r penderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb.

### Cyhoeddi hysbysiad o benderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb

**4.**—(1) Rhaid i awdurdod tai lleol sy'n penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb gyhoeddi hysbysiad o'i benderfyniad—

(a) ar wefan yr awdurdod (os oes ganddo un), a

(b) drwy osod copi o'r hysbysiad yn y swyddfeydd lle y daw ceisiadau am gymorth ynghylch digartrefedd i law,

dim llai na 14 o ddiwrnodau cyn gweithredu'r penderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb.

**5.**—(1) Rhaid i awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r canlynol am ei benderfyniad o dan reoliad 4(1)—

(a) ceiswyr a'u cynghorwyr; a

(b) y fath awdurdodau cyhoeddus neu awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol neu bersonau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol.

(**4**) 2000 p. 6.
(**5**) 2012 p. 10.

(2) Rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod copi o'r hysbysiad o'i benderfyniad ar gael, yn ddi-dâl, i geiswyr y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt.

**Terfynau ar ddiwygio rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr**

**6.** Ni chaiff awdurdod tai lleol sydd wedi penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb ddiwygio'r rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr fwy na dwywaith mewn cyfnod o 12 mis. Mae rheoliadau 3, 4 a 5 yn gymwys i benderfyniad i ddiwygio rhestr fel y maent yn gymwys i'r penderfyniad gwreiddiol.

## RHAN 3

### Penderfyniadau ar fwriadoldeb mewn perthynas â cheiswyr presennol

**Effaith penderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb ar geisydd presennol**

**7.**—(1) Ni chaiff awdurdod tai lleol sy'n penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb yn unol ag adran 78 roi sylw i fwriadoldeb mewn perthynas â cheisydd presennol.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ceisydd presennol" ("*existing applicant*") yw ceisydd y mae'r ddyletswydd yn adran 62(1) yn ddyledus iddo ar yr adeg pan fo penderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb yn cael ei wneud.

**Effaith newidiadau i restr o gategorïau penodedig o geiswyr ar geisydd presennol**

**8.**—(1) Ni chaiff awdurdod tai lleol sy'n rhoi sylw i fwriadoldeb roi sylw i fwriadoldeb mewn perthynas â cheisydd presennol—

(a) os yw'r awdurdod wedi tynnu un neu ragor o gategorïau o'i restr o gategorïau penodedig o geiswyr ac oni bai am hynny y byddai'r ceisydd presennol wedi dod o fewn y rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr, neu

(b) os yw'r awdurdod wedi cynnwys un neu ragor o gategorïau yn ei restr o gategorïau penodedig o geiswyr ac o ganlyniad i hynny mae'r ceisydd hwnnw yn dod o fewn y rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ceisydd presennol" ("*existing applicant*") yw ceisydd—

(a) sydd wedi ei ddisgrifio ym mharagraff (1)(a) neu (b), a

(b) y mae'r ddyletswydd yn adran 62(1) yn ddyledus iddo ar yr adeg pan fo newid yn cael ei wneud i'r rhestr o gategorïau penodedig o geiswyr.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

21 Ebrill 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 78(2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn darparu na chaiff awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75 wrth asesu ceisydd am gymorth ynghylch digartrefedd, oni bai ei fod wedi penderfynu rhoi sylw i un neu ragor o'r categorïau o geiswyr a bennwyd gan Weinidogion Cymru. Mae adran 78(1) o'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu categorïau o'r fath.

Yn y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn pennu rhestr o gategorïau o geiswyr at ddibenion adran 78. Mae'r rhestr hon yn rheoliad 2. Mae wedi ei seilio ar adran 70 o'r Ddeddf, sy'n nodi'r rhestr o'r personau sydd mewn angen blaenoriaethol am lety.

Gan ddibynnu ar y pŵer sydd wedi ei gynnwys yn adran 142(2)(c) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau canlyniadol, atodol a throsiannol. Disgrifir y rhain isod.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid i awdurdod tai lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i roi sylw i fwriadoldeb i Weinidogion Cymru, o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn iddo gael effaith. Rhaid i'r hysbysiad bennu'r categori neu gategorïau o geiswyr y bydd yr awdurdod tai lleol yn ystyried bwriadoldeb mewn perthynas â hwy. Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys rhesymau dros benderfynu rhoi sylw i'r categori neu'r categorïau a bennwyd.

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o benderfyniad i geiswyr a rhanddeiliaid. Yn benodol, rhaid cyhoeddi'r hysbysiad ar wefan yr awdurdod tai lleol, os oes ganddo un, a rhaid bod copi ohono ar gael, yn ddi-dâl, i'r ceiswyr yr effeithir arnynt.

Mae rheoliad 6 yn darparu na chaniateir diwygio'r penderfyniad fwy na dwywaith mewn cyfnod o 12 mis. Mae hefyd yn egluro bod rhaid cyhoeddi hysbysiadau o benderfyniadau a ddiwygiwyd mewn ffordd debyg i'r hysbysiadau gwreiddiol.

Mae rheoliad 7 yn atal awdurdod tai lleol rhag ystyried bwriadoldeb mewn perthynas â cheiswyr presennol y mae'r ddyletswydd o dan adran 62(1) o'r Ddeddf yn ddyledus iddynt, cyn bod yr awdurdod yn penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb.

Mae rheoliad 8 yn gymwys i geisydd presennol am gymorth, y mae dyletswydd i asesu o dan adran 62(1) o'r Ddeddf yn ddyledus iddo ar yr adeg pan fo unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i gategorïau. Mae rheoliad 8(1)(a) yn darparu na chaiff yr awdurdod roi sylw i fwriadoldeb mwyach wrth asesu cais os yw ceisydd o'r fath mewn categori sy'n cael ei dynnu o'r rhestr o gategorïau.

Ar y llaw arall, os yw ceisydd o'r fath mewn categori sydd wedi ei gynnwys mewn rhestr o gategorïau tra bo'r cais am asesiad yn cael ei ystyried, yna mae rheoliad 8(1)(b) yn darparu na fydd yr hysbysiad yn effeithio ar y ceisydd hwnnw ac na chaiff awdurdod roi sylw i fwriadoldeb y ceisydd hwnnw.